Cyngor Cymuned Botwnnog

Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Mae'r Cyngor hwn yn cymeradwyo adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn credu bod dynodi ardaloedd o arwyddocad ieithyddol yn gam allweddol tuag at gyfnerthu cymunedau Cymraeg. Geilw ar Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i ddynodi ardaloedd o arwyddocad ieithyddol yn unol ag argymhelliad y Comisiwn

Fel cyngor mewn ardal y mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd mwyafrif ei thrigolion, rydym yn credu bod Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn un pwysig tu hwnt ac y byddai dynodi Ardaloedd o Arwyddocad leithyddol yn gam ymlaen at sicrhau dyfodol ein cymunedau a diogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Byddai'r dynodiad yn rhwyddhau'r ffordd i amrywio polisi yn lleol gan roi ystyriaeth ddyledus i'r Gymraeg.

Cadeirydd

Y Cynghorydd Michael Strain

Dyddiad cyfarfod 11eg Tachwedd, 2024